**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 3231 (Cy.311)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu a disodli Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2000 fel y'i diwygiwyd.

Mae Rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch hyd y diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol.

Mae Rheoliad 5 yn darparu na cheir trin mwy na dwy sesiwn ysgol a neilltuwyd ar gyfer hyfforddi athrawon mewn datblygu trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion i'r cyfnod allweddol cyntaf a throsi rhwng y cyfnodau allweddol ac ar gyfer cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm ym mhob un o'r blynyddoedd ysgol 2003-2004, 2004-2005 a 2005-2006 fel sesiynau pan gyfarfu'r ysgol.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 3231 (W.311)

# EDUCATION, WALES

## The Education (School Day and School Year) (Wales) Regulations 2003

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations revoke and replace the Education (School Day and School Year) (Wales) Regulations 2000, as amended.

Regulation 4 makes provision about the length of the school day and the school year.

Regulation 5 provides that not more than two school sessions devoted to the training of teachers in the development of arrangements for entry of pupils into the first key stage and transition between the key stages and for the planning and delivery of the curriculum in each of the 2003-2004, 2004-2005 and 2005-2006 school years may be treated as sessions on which the school has met.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 3231 (Cy.311)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003

*Wedi'u gwneud* *9 Rhagfyr 2003*

*Yn dod i rym* *31 Rhagfyr 2003*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 551 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**a**) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**b**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Dirymu**

**2**. Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu'r rheoliadau canlynol -

(a) Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2000(**c**);

(b) Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2001(**ch**);

(c) Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2002(**d**); ac

(a) 1996 p.56; mewnosodwyd adran 551(1A) gan baragraff 39 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997 (p.44), diwygiwyd adran 551(2) gan baragraff 166 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31). I gael ystyr "regulations" a "prescribed" *gweler* adran 579(1).

(b) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) O.S. 2000/1323 (Cy.101).

(ch) O.S. 2001/2499 (Cy. 202).

(d) O.S. 2002/107 (Cy. 12).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 3231 (W.311)

# EDUCATION, WALES

## The Education (School Day and School Year) (Wales) Regulations 2003

*Made* *9th December 2003*

*Coming into force* *31st December 2003*

In exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 551 and 569(4) and (5) of the Education Act 1996(**a**) and now vested in the National Assembly for Wales(**b**), the National Assembly for Wales makes the following Regulations:

**Name, commencement and application**

**1**.-(1) These Regulations are called the Education (School Day and School Year) (Wales) Regulations 2003 and come into force on 31st December 2003.

(2) These Regulations apply only to Wales.

**Revocation**

**2**. These Regulations revoke the following regulations -

(a) the Education (School Day and School Year) (Wales) Regulations 2000(**c**);

(b) the Education (School Day and School Year) (Amendment) (Wales) Regulations 2001(**d**);

(c) the Education (School Day and School Year) (Amendment) (Wales) Regulations 2002(**e**); and

(a) 1996 c.56; section 551(1A) was inserted by paragraph 39 of schedule 7 to the Education Act 1997 (c.44), section 551(2) was amended by paragraph 166 of Schedule 30 to the School Standards and Framework Act 1998 (c.31). For the meaning of "regulations" and "prescribed" *see* section 579(1).

(b) The functions of the Secretary of State were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 2000/1323 (W.101).

(d) S.I. 2001/2499 (W.202).

(e) S.I. 2002/107 (W.12).

(ch) Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2002(**a**).

**Dehongli**

**3**. Yn y Rheoliadau hyn -

ystyr "dosbarth meithrin" ("*nursery class*") yw dosbarth sydd wrthi'n bennaf yn darparu addysg lawnamser neu ran-amser sydd yn addas ar gyfer plant nad ydynt wedi cyrraedd oedran ysgol orfodol;

ystyr "y flwyddyn ysgol" ("*school year*") yw'r cyfnod sy'n dechrau gyda'r tymor ysgol cyntaf i ddechrau ar ôl Gorffennaf ac sy'n diweddu gyda dechrau'r tymor ysgol cyntaf sy'n dechrau ar ôl y Gorffennaf canlynol; ac

ystyr "ysgol" ("*school*") yw ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol, neu ysgol arbennig nad yw awdurdod addysg lleol yn ei chynnal.

**Sesiynau ysgol**

**4**.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), rhennir pob diwrnod y mae ysgol yn cyfarfod yn ddwy sesiwn a wahenir gan egwyl yng nghanol y dydd oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn peri nad yw hyn yn ddymunol.

(2) Rhaid cynnal o leiaf 380 o sesiynau mewn ysgol yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol ond er hynny nid oes dim yn y paragraff hwn sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddosbarth meithrin gyfarfod am y nifer hwnnw o sesiynau.

(3) Pan rwystrir ysgol ar unrhyw adeg rhag cyfarfod am un neu fwy o sesiynau y bwriadwyd iddi gyfarfod, ac nad yw'n rhesymol ymarferol gwneud trefniadau iddi gyfarfod ar adeg wahanol ar gyfer y sesiynau hynny, ymdrinnir â'r ysgol at ddibenion paragraff (2) fel pe bai wedi cyfarfod yn unol â'r bwriad.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), ar bob diwrnod y bydd ysgol feithrin neu ddosbarth meithrin yn cyfarfod rhaid darparu o leiaf deirawr o weithgareddau addas.

(5) Mae'n ddigonol darparu gweithgareddau addas am awr a hanner i ddisgybl ar ddiwrnod pan fydd y disgybl -

(a) yn bresennol mewn ysgol feithrin neu ddosbarth meithrin sy'n cyfarfod am un sesiwn yn unig; neu

(b) yn bresennol mewn ysgol feithrin neu ddosbarth meithrin am un sesiwn yn unig allan o ddwy sesiwn.

(a) O.S. 2002/1556 (Cy. 153).

(d) the Education (School Day and School Year) (Amendment) (No.2) (Wales) Regulations 2002(**a**).

**Interpretation**

**3**. In these Regulations -

"nursery class" ("*dosbarth meithrin*") means a class predominantly engaged in the provision of full-time or part-time education suitable for children who have not attained compulsory school age;

"school" ("*ysgol*") means a school maintained by a local education authority, or a special school not maintained by a local education authority; and

"school year" ("*y flwyddyn ysgol*") means the period beginning with the first school term to begin after July and ending with the beginning of the first such term to begin after the following July.

**School sessions**

**4**.-(1) Subject to paragraph (6), every day on which a school meets is to be divided into two sessions which are to be separated by a break in the middle of the day unless exceptional circumstances make this undesirable.

(2) At least 380 sessions must be held at a school during any school year save that nothing in this paragraph is to require a nursery class to meet for that number of sessions.

(3) Where at any time a school is prevented from meeting for one or more sessions for which it was intended that it should meet, and it is not reasonably practicable for arrangements to be made for it to meet at an alternative time for those sessions, the school is to be treated for the purposes of paragraph (2) as if it had met as intended.

(4) Subject to paragraph (5), on every day on which a nursery school or nursery class meets there must be provided at least three hours of suitable activities.

(5) On a day on which a pupil -

(a) attends a nursery school or nursery class which meets for only a single session; or

(b) attends a nursery school or nursery class for one only of two sessions, it is sufficient to provide the pupil with one and a half hours of suitable activities.

(a) S.I. 2002/1556 (W.153).

(6) Mewn ysgol sy'n cyfarfod ar chwe diwrnod o'r wythnos gall fod un sesiwn yn unig ar ddau o'r dyddiau hynny.

**5**.-(1) Pan fydd sesiwn ysgol yn y flwyddyn ysgol 2003-2004 wedi'i neilltuo'n llwyr neu yn bennaf i ddarparu hyfforddiant y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo ar gyfer athrawon a gyflogir yn yr ysgol honno, ymdrinnir â'r sesiwn honno at ddibenion rheoliad 4 fel pe bai'n sesiwn pan gyfarfu'r ysgol.

(2) Pan fydd sesiwn ysgol yn y flwyddyn ysgol 2004-2005 wedi'i neilltuo'n llwyr neu yn bennaf i ddarparu hyfforddiant y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo ar gyfer athrawon a gyflogir yn yr ysgol honno, ymdrinnir â'r sesiwn honno at ddibenion rheoliad 4 fel pe bai'n sesiwn pan gyfarfu'r ysgol.

(3) Pan fydd sesiwn ysgol yn y flwyddyn ysgol 2005-2006 wedi'i neilltuo'n llwyr neu yn bennaf i ddarparu hyfforddiant y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo ar gyfer athrawon a gyflogir yn yr ysgol honno, ymdrinnir â'r sesiwn honno at ddibenion rheoliad 4 fel pe bai'n sesiwn pan gyfarfu'r ysgol.

(4) Nid yw paragraff (1) yn gymwys ond mewn perthynas â sesiynau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2004 ac nid oes dim ym mharagraffau (1), (2) a (3) i fod yn effeithiol mewn perthynas â mwy na dwy sesiwn ysgol ym mhob blwyddyn ysgol.

(5) Mae paragraff (1) yn gymwys i hyfforddiant sy'n ymwneud â datblygu trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion i'r cyfnod allweddol cyntaf a throsi rhwng y cyfnodau allweddol ac ar gyfer cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**).

9 Rhagfyr 2003

(6) In a school which meets on six days a week there may on two of those days be only a single session.

**5**.-(1) Where a school session in the 2003-2004 school year is devoted wholly or mainly to the provision to teachers employed at that school of training to which this paragraph applies, that session is to be regarded for the purposes of regulation 4 as a session on which that school has met.

(2) Where a school session in the 2004-2005 school year is devoted wholly or mainly to the provision to teachers employed at that school of training to which this paragraph applies, that session is to be regarded for the purposes of regulation 4 as a session on which that school has met.

(3) Where a school session in the 2005-2006 school year is devoted wholly or mainly to the provision to teachers employed at that school of training to which this paragraph applies, that session is to be regarded for the purposes of regulation 4 as a session on which that school has met.

(4) Paragraph (1) is only to apply in relation to sessions on or after 1st January 2004 and none of paragraphs (1), (2) and (3) is to have effect in relation to more than two school sessions in each school year.

(5) Paragraph (1) applies to training relating to the development of arrangements for entry of pupils into the first key stage and transition between the key stages and for the planning and delivery of the curriculum.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**).

9th December 2003

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090828-7

9 780110 908281

£1.75

W219/12/03 ON